Cofnodion Wedi eu Cadarnhau

Teitl y Cyfarfod:	**Cyfarfod Bwrdd (Busnes)** **Neuadd Siôr, Neuadd y Ddinas, Abertawe**
Dyddiad y Cyfarfod:	7 Mai 2015
Aelodau'r Bwrdd:	Ruth Hall Madeleine Havard Harry Legge-Bourke Peter Matthews (Cadeirydd) Andy Middleton Nigel Reader Paul Williams Hywel Davies Lynda Warren Emyr Roberts (Prif Weithredwr)
Aelodau'r Tîm Gweithredol yn bresennol:	Clive Thomas, Cyfarwyddwr Llywodraethu Niall Reynolds, Cyfarwyddwr Pontio Kevin Ingram, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol Ashleigh Dunn, Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Cyfundrefnol a Rheoli Pobl Gareth O'Shea, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r De Tim Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth Ceri Davies, Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio
Ysgrifenyddiaeth:	Kelly Goswell Geri Mills

Croeso

1. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

Ymddiheuriadau

2. Cafwyd ymddiheuriadau gan Catherine Smith (Cyfarwyddwr Cysylltiadau Allanol a Chyfathrebu), Martin Britton (Prif Swyddog Gwybodaeth), Trefor Owen (Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cenedlaethol) a Paul Williams (am ran o'r cyfarfod).

3. Estynnodd y Cadeirydd groeso ffurfiol i gyfarfod y Bwrdd i Gareth O'Shea, a benodwyd yn ddiweddar yn Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r De.

Datgan Buddiannau

4. Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau.

Cadarnhau'r Cofnodion

5. Cytunwyd ar gofnodion cyfarfod y Bwrdd ar 27 Mawrth fel cofnod cywir o'r cyfarfod ac fe'u cymeradwywyd gan y Bwrdd yn amodol ar fân newidiadau.

Adolygu'r Log Gweithredu

6. Adolygwyd y log gweithredu a chadwyd yr adborth canlynol:

Cam gweithredu1: *CNC i ddarparu nodyn briffio i'r Grŵp ar ddiweddariad y Panel Cynghori Coetiroedd* - Cyflawnwyd

Cam gweithredu 2: *Cyfarwyddwr Gweithredol y Gwasanaethau Cenedlaethol i ddarparu nodyn briffio i'r Bwrdd ar y ffigurau plannu, ailblannu a chwympo newydd i goedwigaeth yng Nghymru.* Cyflawnwyd – Cylchredwyd nodyn briffio a chyflwyniad cyn cyfarfod y Bwrdd.

Cam gweithredu 3: *Cylchredeg y Telerau Cyfrifoldeb a'r rhestr aelodau* – Cyflawnwyd – rhannwyd y rhestr aelodau a'r telerau cyfrifoldeb gyda'r Bwrdd.

7. Trafododd y Bwrdd y cynllun coetiroedd a nododd fod cyfarfod wedi'i gynllunio ar 15 Mai gyda'r sector busnes coedwigaeth.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddarparu papur briffio o gyfarfod y sector busnes coedwigaeth ar gyfer cyfarfod mis Gorffennaf y Bwrdd.

Diweddariad ar Les, Iechyd a Diogelwch (NRW B B 25.15)

8. Cytunodd y Bwrdd yn y cyfarfod ym mis Mawrth y câi papur briffio ar Les, Iechyd a Diogelwch ei gyflwyno cyn y cyfarfodydd a'i nodi fel eitem sefydlog ar yr agenda.

9. Tynnodd y Prif Weithredwr sylw at sawl mater o'r papur briffio, yn cynnwys riportio damweiniau y bu ond y dim iddynt ddigwydd, rhywbeth y bydd system newydd yn ei hwyluso drwy wella'r system riportio. Nododd y Bwrdd y cynnydd mewn absenoldebau salwch hefyd, yn arbennig y cynnydd mewn absenoldebau'n deillio o faterion iechyd meddwl, a chawsant sicrwydd fod camau ar waith i roi sylw i hyn.

10. Cytunodd y Bwrdd i adolygu'r meincnod o 7 diwrnod o absenoldeb (ar gyfartaledd) y gweithiwr ac awgrymodd y dylid adolygu geiriad y 'targed' i'w gwneud yn glir ei fod yn uchafswm na ddylid mynd y tu hwnt iddo, yn hytrach na tharged i'w daro.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Datblygu Cyfundrefnol a Rheoli Pobl i adolygu'r meincnod absenoldeb salwch ac adolygu geiriad y targed.

11. Trafododd y Bwrdd bwysigrwydd y Gronfa Ddata Safleoedd Anghyfeillgar a nododd hefyd y gofyniad ar i weithwyr unigol a staff maes gael hyfforddiant cymorth cyntaf llawn ac, mewn rhai achosion, iddynt gael ffonau GPS lloeren ar gyfer sefyllfaoedd argyfwng.

Fframwaith Perfformiad 2014-2015 ac Adroddiad Dangosfwrdd Corfforaethol (Cyflwyniad) (NRW B B 26.15)

12. Rhoddodd y Prif Weithredwr gyflwyniad, gyda chymorth Cadeiryddion pob ymgyrch Yn Dda i'r Bwrdd, yn amlinellu'r perfformiad o ran gwireddu blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol, fel y'u nodwyd yng Nghynllun Busnes 2014/15 ac yn y llythyr cylch gwaith oddi wrth Lywodraeth Cymru.

13. Croesawodd y Bwrdd yr adroddiad a rhoddodd yr adborth canlynol:

- Mae'r adroddiad yn ffynhonnell gwybodaeth amhrisiadwy ac mae CNC wedi gwneud yn dda i sefydlu ffordd o ymdrin â riportio perfformiad sy'n esiampl i eraill. Mae'r adroddiad yn dangos gwerth rheoli perfformiad gan ei fod yn nodi natur gwaith CNC yn fras, ei lwyddiannau, a'r meysydd y mae angen rhoi sylw iddynt.
- Trafodwyd a fyddai'n well cyfyngu'r term 'Cyfoeth' i'r cynllun prentisiaid, a chytunwyd i ystyried defnyddio term gwahanol ar gyfer lleoliadau gwaith a gwirfoddoli.

- Mae'r graffiau manwl yn yr adroddiad yn ffynhonnell gwybodaeth gyfoethog ond mae'n anodd eu darllen, yn arbennig mewn fformat A3
- Trafodwyd fod thema 'Gwybodaeth Dda' yn wyrdd i gyd, a nodwyd y sialensiau yn y maes hwn yn y tymor hwy
- Codwyd pryder ynglŷn â'r ddau ddangosydd coch o dan thema 'Amgylchedd Da' ac roedd y Bwrdd yn glir fod angen gwelliannau ar gyfer 2015/16
- Nododd Cadeirydd ARAC fod yr ochr ariannol wedi'i rheoli'n dda yn ystod y flwyddyn. Roedd yn fuddiol cyflwyno'r Gofrestr Risg a bydd nifer o eitemau penodol ar y gofrestr yn cael eu trafod yn fanwl mewn cyfarfod ARAC yn y dyfodol.
- Tynnodd y Cadeirydd a'r Bwrdd sylw at y cyfle posib o ran cyfathrebu yn gysylltiedig â'r perfformiad a riportiwyd ar ddiwedd y flwyddyn, yn ogystal â thrylwyredd yr adroddiadau eu hunain.

14. Cymeradwyodd y Bwrdd yr adroddiad gan ddiolch amdano a nodi ei fod yn adlewyrchu gweithlu neilltuol o ymroddgar, sydd wedi cyflawni o dan amgylchiadau anodd iawn yn 2014/15.

Strategaeth Rheoli Digwyddiadau (NRW B B 27.15)

15. Estynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio groeso i Paul Edmonds i'r cyfarfod a chyflwynodd y papur gan ofyn i'r Bwrdd gymeradwyo Strategaeth Rheoli Digwyddiadau 2015-2020, y Cynllun Gweithredu cysylltiol a'r Cynllun Cyfrifyddu ar Sail Canlyniadau (RBA).

16. Trafododd y Bwrdd y papur a rhoddodd yr adborth canlynol:

- Bydd y Strategaeth yn rhoi mwy o ffocws gan ei bod yn amlinellu ein rôl statudol fel ymatebwr Categori 1 ac yn gosod amcanion i'n gwneud yn fwy effeithlon ac i ddarparu gwasanaeth llwyr integredig ar draws ein swyddogaethau.
- Nodwyd bod Is-grŵp Cymunedau'r Bwrdd wedi adolygu'r papur cyn hyn yn weddol fanwl a chadarnhawyd bod ei awgrymiadau ef wedi'u hymgorffori yn y papur.
- Cytunai'r Bwrdd mai'n prif nod yw atal digwyddiadau rhag digwydd.
- Nododd y Bwrdd y cyfle i adeiladu ar ein henw da gyda'r cyhoedd a'n partneriaid, ac y bydd sut rydyn ni'n mynd ati i wneud ein gwaith yn y cyswllt hwn yr un mor bwysig â beth rydyn ni'n ei wneud.
- Mae rhoi gwybod am ddigwyddiadau yn rhan dyngedfennol o'n gwaith a bydd gofyn canolbwyntio ar hynny'n barhaus yn fewnol ac yn allanol.
- Nodwyd materion yn ymwneud â chynllunio'r gweithlu, a chodwyd y gofynion hyfforddi fel pwynt allweddol er mwyn gwneud defnydd llawn o holl staff maes CNC.
- Argymhellwyd y dylai'r cysylltiadau rhwng digwyddiadau a rheoli risg gael eu datblygu ymhellach yn y strategaeth.

17. Cymeradwyodd y Bwrdd y strategaeth yn amodol ar fân newidiadau a nododd y cynllun gweithredu.

Papur Tystiolaeth - Statws Eogiaid a Siwin yng Nghymru (NRW B B 28.15)

18. Estynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio groeso i Peter Gough i'r cyfarfod. Rhoddodd Peter ddiweddariad i'r Bwrdd gan fanylu ar statws eogiaid a siwin yng Nghymru ar hyn o bryd.

19. Gofynnwyd i'r Bwrdd nodi statws cyflenwadau eogiaid a siwin yng Nghymru ar hyn o bryd, cydnabod y duedd tuag at ddirywiad ac ystyried y goblygiadau o ran rheoli cyflenwadau i'r dyfodol, yn ogystal â nodi cam nesaf y gwaith a'r opsiynau er mwyn adfer cyflenwadau.

20. Nododd y Bwrdd y papur a rhoddodd yr adborth canlynol:

- Yn dilyn y penderfyniadau yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Rhagfyr, nododd y Bwrdd ein bod erbyn hyn yn cyflawni yn erbyn ein hymrwymiad i weithio gyda rhanddeiliaid mewn ffordd systematig ac y bydd angen parhau â'r ymdrech hon yn y tymor hir.
- Cytunai aelodau Is-grŵp Amgylchedd y Bwrdd mai'r newid amodau yn y môr sy'n cael yr effaith fwyaf niweidiol ar gyflenwadau eog a bod angen rheoli'r boblogaeth, sydd wedi lleihau, mewn modd mor gynaliadwy â phosib felly, tra mae yn afonydd Cymru.
- Cytunwyd mor bwysig yw hi i weithio gyda chyrff cyfatebol eraill yn y Deyrnas Unedig ar lefel uchel.
- Cytunodd y Bwrdd mai'r cam nesaf yw datblygu papur opsiynau yn cynnig mesurau pellach fel modd i reoli cyflenwadau'n gynaliadwy. Mae gweithio gyda rhanddeiliaid, drwy gyfres o weithdai, i ddatblygu cynlluniau gweithredu y cytunir arnynt, yn hanfodol.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i ddatblygu papur opsiynau ac i ddarparu diweddariadau pellach i gyfarfodydd Bwrdd yn y dyfodol ar y gwaith o ddatblygu Cynllun Gweithredu .

- Cadarnhaodd Is-grŵp Amgylchedd y Bwrdd ei gefnogaeth yn helpu i ddatblygu'r papur.

Ariannu'r Prosiect (Partneriaeth) Rheoli Adnoddau Naturiol - 2015/16 (NRW B B 29.15)

21. Estynnodd y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio groeso i Rhian Jardine i'r cyfarfod a chyflwynodd y papur.

22. Trafododd y Bwrdd y papur a darparodd yr adborth canlynol:

- Cytunai'r Bwrdd y dylid newid enw'r gronfa o'r flwyddyn hon, i helpu i sefydlu eglurder ynglŷn â'n gwaith partneriaeth ehangach.
- Cymeradwyodd y Bwrdd y drefn a gynigiwyd o ran cyfranoldeb.
- Briffiwyd y Bwrdd ar gynnwys llythyr a ddaeth i law y diwrnod cyn cyfarfod y Bwrdd, oddi wrth Ymddiriedolaethau Natur Cymru. Cytunodd Is-grŵp Cymunedau'r Bwrdd i weithio gyda'r tîm i ystyried y materion a godwyd.
- Cadarnhawyd rôl ARAC yn helpu i ddarparu diwydrwydd dyladwy a sicrwydd, a thrwy hynny liniaru unrhyw risg.
- Trafododd y Bwrdd y dull o sefydlu trothwy o ran cyfraniad canrannol tuag at orbenion prosiectau. Gwahaniaethwyd rhwng cyfrannu tuag at gostau craidd partner sefydliadau a gorbenion prosiectau a chytunwyd y byddai'r cynnig ynglŷn â throthwy 7% yn cael ei drafod ymhellach.
- Ystyriodd y Bwrdd hefyd a oedd angen mwy o hyblygrwydd i ariannu prosiectau y tu hwnt i'r meysydd peilot Rheoli Adnoddau Naturiol, a hefyd a allai ystod ehangach o gyfraniadau ariannu fod yn briodol.
- Awgrymwyd cyfarfod gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri, i ddysgu mwy am y digwyddiadau maen nhw'n eu cynnal i gysylltu â rhanddeiliaid.

23. Cytunodd y Bwrdd â'r cyfeiriad cyffredinol oedd yn cael ei gynnig yn y papur a byddai'r materion sy'n weddill yn cael eu trafod gydag Is-grŵp Cymunedau'r Bwrdd ar ran y Bwrdd llawn.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Gweithredol Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio i bennu meini prawf ariannu Rheoli Adnoddau Naturiol ar eu gwedd derfynol, gyda chymorth y Grŵp Bwrdd Cymunedau.

Delio â Chwynion a Chanmolaeth a Mynediad at Wybodaeth – Adroddiadau Blynyddol (2014/15) (NRW B B 30.15)

24. Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Llywodraethu'r papur i'r Bwrdd er mwyn iddo nodi'r cynnydd o ran delio â chwynion a cheisiadau am wybodaeth a ddaeth i law yn 2014/15 a chymeradwyo'r Adroddiadau Blynyddol

25. Trafododd y Bwrdd y papur a nodwyd y canlynol:

- Roedd ARAC wedi ystyried yr adroddiadau interim ac wedi rhoi sicrwydd i'r Bwrdd llawn.
- Mae'r adroddiad yn adlewyrchu perfformiad y sefydliad cyfan gan gadarnhau tuedd gadarnhaol o ran perfformiad ar y ddwy elfen. Cytunai'r Bwrdd fod delio â chwynion a mynediad at wybodaeth yn adlewyrchiad uniongyrchol o'n hymrwymiad i ofal cwsmeriaid rhagorol.

- Nid yw adroddiadau blynyddol ar y cyfrifoldebau hyn yn ofynion statudol ond gan fod y ddwy elfen yn cael eu rheoli gan reoleiddwyr allanol (yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Comisiynydd Gwybodaeth), mae adroddiadau perfformiad blynyddol yn cael eu hystyried yn ymarfer gorau. Roedd y ddau adroddiad yn cadarnhau nad oedd CNC wedi cael unrhyw ddyfarniadau beirniadol arwyddocaol yn ystod y flwyddyn o ran uwchgyfeirio.
- Byddid yn croesawu adroddiadau ar ein gweithgarwch cyfreithiol, yn cynnwys llwyddiannau a sialensiau.

CAM GWEITHREDU: Y Cyfarwyddwr Llywodraethu i ddarparu adroddiad ar weithgarwch cyfreithiol i gyfarfod o'r Bwrdd yn y dyfodol.

- Nodwyd y byddai gwahaniaethu'n gliriach rhwng achosion o fewn blwyddyn ac achosion sy'n pontio blynyddoedd adrodd yn fuddiol.

26. Nododd y Bwrdd yr adroddiad, croesawodd y perfformiad a thynnodd sylw at y ffocws ar ofal cwsmeriaid.

Achos Busnes Cyfoeth Naturiol Cymru – Adroddiad Cynnydd (Cyflwyniad) (NRW B B 31.15)

27. Rhoddodd y Cyfarwyddwr Pontio gyflwyniad i'r Bwrdd yn manylu ar y cynnydd o ran gwireddu buddion a chanlyniadau'r Achos Busnes.

28. Nododd y Bwrdd y diweddariad gan gymeradwyo trylwyredd y gwaith tracio buddion a'r adroddiad cyffredinol sy'n cyfleu'n dda iawn hyd a lled a chymhlethdod y newid sydd wedi'i gyflawni.

Diweddariad gan y Cadeirydd (llafar)

29. Rhoddodd y Cadeirydd y wybodaeth ddiweddaraf am gyfarfodydd a fynychwyd a chyflwynodd adroddiad am weithgareddau dan bedair colofn Rheoli Adnoddau Naturiol:

Amgylchedd

- Cyfarfod gyda'r Gweinidog

Economi

- Adolygiad Strategol JNCC

Gwybodaeth

- Digwyddiadau Ymunwch â Ni

Diweddariad gan y Prif Weithredwr (llafar)

30. Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad llafar i'r Bwrdd a oedd yn cynnwys:

- Mae'r gwaith i ddatblygu prosbectws iechyd ar gyfer yr hyn a gynigir gan CNC yn mynd rhagddo'n dda.
- Roedd dalen wybodaeth ar bryfed peillio ar gyfer cyrff cyhoeddus yn cael ei pharatoi gan Gyfarwyddwr Gweithredol Gweithrediadau'r Gogledd a'r Canolbarth.
- Roedd cyfarfod wedi'i gynnal gyda Chynghorydd Gwyddonol Llywodraeth Cymru i ddatblygu patrwm gweithredu ar ffurf 'tîm Cymru' o safbwynt gweithgareddau ymchwil ymysg prifysgolion.

Adroddiadau gan Bwyllgorau

Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol

31. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth eu cadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd.

Pwyllgor ARAC

32. Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 20 Mawrth eu cadarnhau'n ffurfiol gan y Bwrdd.

Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru

33. Cyfarfu'r Pwyllgor ar 14 Ebrill i drafod ei ddyfodol, a'r ymateb arfaethedig i gynigion Llywodraeth Cymru ynghylch Draeniau Trefol Cynaliadwy a materion cynllunio perthnasol eraill.

Pwyllgor Safleoedd Gwarchodedig

34. Nid oedd unrhyw gyfarfodydd statudol wedi cael eu cynnal ers cyfarfod diwethaf y Bwrdd. Fodd bynnag, cyfarfu'r pwyllgor ar 17 Ebrill i roi cyngor i'r tîm Gwybodaeth, Strategaeth a Chynllunio ar faterion amrywiol.

Diweddariadau gan Grwpiau'r Bwrdd (ysgrifenedig)

35. Darparwyd adroddiadau Grwpiau'r Bwrdd er gwybodaeth.

Rhagolwg

36. Cadarnhaodd y Cadeirydd mai cyfarfod Bwrdd mis Gorffennaf fyddai ei gyfarfod olaf ef yn ei swydd ac y byddai angen rhywfaint o bwyso a mesur felly fel rhan o'r agenda er mwyn sicrhau parhad.

37. Trafododd y Bwrdd yr angen am sesiwn fanylach ar Fil yr Amgylchedd.

CAM GWEITHREDU: Dyddiad i'w drefnu ar gyfer sesiwn ar Fil yr Amgylchedd.

Unrhyw Fater Arall

38. Nododd y Bwrdd lwyddiant y sesiynau Ymunwch â Ni a gynhaliwyd yn ddiweddar.

39. Daeth y Cadeirydd â'r cyfarfod i ben.